# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat anffurfiol - 09.15 - 09.30

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

**Dogfennau atodol:**

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Trafod blaenoriaethau'r portffolio

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 21)

Kirsty Williams AC - Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Owen Evans - Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Group Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Steve Vincent - Dirprwy Cyfarwyddwr, Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Huw Morris - Cyfarwyddwr Grŵp, SAUDGO

**Dogfennau atodol:**

Papur Ymchwil

CYPE(5)-02-16 - Papur 1

## Egwyl - 10.30 - 10.40

## 3 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - Trafod blaenoriaethau'r portffolio

(10.40 - 11.40) (Tudalennau 22 - 25)

Carl Sargeant AC - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Albert Heaney - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Jo-Anne Daniels - Cyfarwyddwr, Cymmunedau ac Trechu Tlodi

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-02-16 - Papur 2

## Papur i'w nodi

## 4 Gohebiaeth gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Eich penodiad yn Gadeirydd Pwyllgor

(Tudalennau 26 - 31)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-02-16 - Papur 3 - i'w nodi

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.40)

**Dogfennau atodol:**

## 6 Cyfrifoldebau'r Pwyllgor a materion y Pumed Cynulliad

(11.40 - 12.00) (Tudalennau 32 - 39)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-02-16 - Papur 4 - preifat

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer y portffolio Addysg.   Rwyf wedi cytuno ar y naw egwyddor ganlynol gyda'r Prif Weinidog:
    1. Lleihau maint dosbarthiadau babanod.
    2. Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy Bremiwm Disgybl estynedig.
    3. Blaenoriaethu mynediad ysgolion i fand eang cyflym iawn fel rhan o'r rhaglen genedlaethol.
    4. Cymell, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth addysgu er mwyn i ni godi safonau yn gyffredinol.
    5. Hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i mewn i addysg uwch ac addysg bellach a thrwyddynt, a rolau cenedlaethol, rhyngwladol a dinesig ein sefydliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan amser a fydd o fudd i ddysgwyr o bob oedran, cyflogwyr a chymunedau.
    6. Adolygu effaith polisïau cyfredol ar leoedd ysgol gwag, gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, er mwyn ystyried tueddiadau twf yn y dyfodol yn well.
    7. Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn.
    8. Ystyried cynigion posibl i ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach.
    9. Blaenoriaethu cymorth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan hwyluso arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sector cyhoeddus a'n sector preifat ar y cyd â'n prifysgolion a'n colegau.

2. Rwyf wedi pwysleisio bod gan nifer o'r blaenoriaethau hyn oblygiadau sylweddol o ran y gyllideb a bydd angen adlewyrchu hyn wrth lunio blaengynlluniau cyllidebol y llywodraeth.

3. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i gael ein barnu ar ganlyniadau, rhaid cynnal a gwella'r canlyniadau hyn dros gyfnod y Cynulliad presennol hwn. Yn ystod haf y llynedd, gwelwyd perfformiad gorau Cymru erioed mewn nifer o bynciau allweddol ac enillodd y ganran uchaf erioed o'n dysgwyr bump cymhwyster TGAU da, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Bu ffocws ar lythrennedd a rhifedd yn greiddiol i'r ymdrech i wella safonau ac rwyf yn awyddus i gynnal y momentwm hwn o welliant ac adeiladu arno drwy barhau i gydweithio gyda'r sector a chanolbwyntio ar ansawdd yr addysgu, gan adlewyrchu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4. Gan ystyried pob blaenoriaeth yn ei thro, cyflwynaf y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am bob un.

**Lleihau maint dosbarthiadau babanod**

5. Mae maint dosbarthiadau yn bryder mawr o hyd i rieni ac athrawon. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion nodi opsiynau ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau, gan ddechrau gyda'r dosbarthiadau mwyaf yn gyntaf.

   Rydym yn ystyried y ffordd orau o sicrhau cysondeb ledled Cymru. Yn ogystal, mae lleihau llwyth gwaith athrawon a'u galluogi i dreulio mwy o amser yn helpu disgyblion yn ddull gweithredu arall pwysig o ran gwella safonau.

**Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy Grant Amddifadedd Disgyblion estynedig**

6. Yn 2014, nododd '*Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*' ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau disgwyliadau a chyflawniadau uchel i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a nododd ddulliau gweithredu i ysgolion eu mabwysiadu i liniaru effaith amddifadedd. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd '*Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*'. Cefnogir y ddwy strategaeth gan y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD), a gyflwynwyd yn 2012 fel rhan o'r fargen gyllidebol rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i addysg i ddysgwyr difreintiedig a helpu i ddileu anghydraddoldebau o ran canlyniadau.

7. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r GAD wedi dod yn fwy cynhwysol ac yn ogystal â helpu dysgwyr sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim, mae bellach yn cefnogi plant a gaiff eu mabwysiadu o'r system ofal, dysgwyr cymwys mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a phlant 3 a 4 oed mewn lleoliadau cyn-ysgol drwy Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (GADBC). Cyflwynwyd GADBC yn 2015-16 ac mae'n darparu ar gyfer plant 3 a 4 oed yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ysgolion, lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn cael £300 ar gyfer pob dysgwr cymwys.

8. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf (gan gynnwys 16/17), buddsoddwyd cyfanswm o fwy na £300 miliwn i helpu dysgwyr difreintiedig. Mae prif elfen y GAD a'r GADBC yn helpu dysgwyr y mae ganddynt yr hawl i brydau bwyd ysgol am ddim a dysgwyr ifanc o gefndiroedd difreintiedig a chaiff 100% ohono ei ddirprwyo i ysgolion a lleoliadau.

9. Ceir tystiolaeth gynyddol fod ein ffocws ar ddysgwyr difreintiedig yn cael effaith, nid yn unig ym maes llythrennedd, rhifedd a chyflawniad academaidd ond hefyd o ran ymddygiad, hyder a hunanbarch - sy'n cael effaith uniongyrchol ar lefelau presenoldeb a chanlyniadau mewn ysgolion.

10. Mae chwalu'r cylch amddifadedd a thlodi yn ymrwymiad hirdymor. Rwyf yn bwriadu sicrhau ffocws parhaus ar helpu dysgwyr difreintiedig. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried dull newydd o weithredu'r GAD, ynghyd â fersiwn

newydd o '*Ailysgrifennu'r dyfodol*', er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf ac yn cyflawni gwelliannau cynaliadwy, hirdymor.

**Blaenoriaethu mynediad ysgolion i fand eang cyflym iawn fel rhan o'r rhaglen genedlaethol**

11. Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai pob ysgol gynradd gymwys yng Nghymru yn cael cysylltedd o 10Mbps o leiaf ac y byddai ysgolion uwchradd cymwys yn cael cysylltedd o 100Mbps fel rhan o'r Rhaglen Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol gwerth £40 miliwn.

12. Er ein bod wedi ystyried gwasanaethau cyflym iawn a gaiff eu darparu gan ddefnyddio Ffeibr i'r Cabinet, mae'r dull hwn wedi'i gyfyngu i uchafswm cyflymder o 80Mbps i'r cwsmer a 20Mbps oddi wrth y cwsmer. Gall ffactorau amgylcheddol megis ansawdd a hyd llinellau effeithio ar hyn, sy'n golygu bod cyflymderau yn nodweddiadol yn is. O ganlyniad, penderfynwyd blaenoriaethu gwasanaethau a ddarperir gan ddefnyddio cysylltiadau ffeibr uniongyrchol dros rwydwaith Cydgasglu Band Eang Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau ffeibr uniongyrchol yn darparu llwybr symlach er mwyn hwyluso cynnydd mewn cyflymder yn y dyfodol a gallent yn hawdd ddarparu cyflymderau o hyd at 1000Mbps (1Gbps) i'r ddau gyfeiriad. Roedd y cyflymderau hyn eisoes yn cael eu darparu mewn rhai ysgolion uwchradd yng Nghymru.

13. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad llawn o'r ysgolion hyn sy'n weddill er mwyn penderfynu ble y gellir cynnig cysylltiadau band eang cyflym iawn erbyn hyn ac er mwyn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gall ysgolion fanteisio ar y gwasanaethau gwell hyn cyn gynted â phosibl.

**Cymell, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth addysgu er mwyn i ni godi safonau yn gyffredinol**

14. Bu'r ffocws ar lunio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth am y mathau mwyaf effeithiol o ddatblygiad proffesiynol a ddarperir drwy ysgolion Arloesol (o dan faner y "*Fargen Newydd*") a diwygiadau radical i addysg gychwynnol athrawon (o dan *Adroddiad Furlong, Addysgu Athrawon Yfory*). Mae prif elfennau'r gwaith fel a ganlyn:
    - Denu a chadw unigolion talentog i addysgu a swyddi prifathrawiaeth yng Nghymru.
    - Sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru yn darparu'r dechrau gyrfaol gorau i ddarpar athrawon.
    - Pennu safonau, cymwysterau, trefniadau rheoli perfformiad a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol gydol gyrfa i'r gweithlu addysg sy'n gweithio ar hyn o bryd.
    - Datblygu gallu arweinyddiaeth a phrifathrawiaeth.
    - Hwyluso'r broses o ddatblygu a darparu dysgu proffesiynol effeithiol rhwng cyfoedion mewn perthynas ag addysgeg ac arweinyddiaeth drwy rwydwaith o ysgolion arweiniol.
    - Cynnal safonau drwy sefydlu proses o gofrestru ymarferwyr gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Creu gallu ymchwil addysg

ledled Cymru a manteisio ar y gallu hwnnw er mwyn ategu gweithgareddau datblygu ymarferwyr a gwella ysgolion.

15. Rwyf yn cydnabod y diffygion o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus a'u goblygiadau o ran safonau ysgolion yn gyffredinol yn ogystal â rhaglen diwygio'r cwricwlwm, a roddwyd ar waith gennym er mwyn gwireddu'r buddiannau a nodwyd yn adroddiad yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*. Felly, byddaf yn bwrw golwg dros y gwaith a wnaed er mwyn sicrhau y caiff yr arfer da sydd heb os yn bodoli yn y system yng Nghymru ei rannu a'i fabwysiadu gan bob ysgol er mwyn sicrhau y gall pob un o'n plant, ni waeth ble maent yn byw, gael yr addysg orau posibl. Rwyf hefyd yn awyddus i godi statws y proffesiwn addysgu; mae angen i'r proffesiwn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

**Hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i mewn i addysg uwch ac addysg bellach a thrwyddynt, a rolau cenedlaethol, rhyngwladol a dinesig ein sefydliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan amser a fydd o fudd i ddysgwyr o bob oedran, cyflogwyr a chymunedau.**

16. Caiff llwyddiant yr economi yng Nghymru ei fesur gan y cyfleoedd y mae'n eu creu i bawb. Mae angen datblygu addysg a sgiliau ein gweithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn helpu Cymru i baratoi ar gyfer gofynion economi gynyddol yn y dyfodol. Bydd ehangu mynediad a theilwra cyrsiau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr economi yng Nghymru yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni'r flaenoriaeth hon.

**Adolygu effaith polisïau cyfredol ar leoedd ysgol gwag, gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, er mwyn ystyried tueddiadau twf yn y dyfodol yn well.**

17. Nodir y polisi cyfredol ar leoedd gwag yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion Statudol. Mae'r Cod yn datgan lle ceir mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal, y dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a chyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion pe byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bydd gan ysgolion unigol lefelau 'sylweddol' o leoedd gwag. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth wag fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi.

18. Yn gyffredinol, nid yw niferoedd disgyblion yn cynyddu mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd oll yn disgwyl i niferoedd disgyblion leihau ymhellach hyd at 2020. Mae Powys ac Ynys Môn yn disgwyl gweld cynnydd bach. Rhagwelwyd yr holl amrywiadau hyn a disgwylir i'r ddarpariaeth ysgolion gael ei chynllunio'n unol â hynny.

19. Mae gan Loegr a'r Alban ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae ganddynt hefyd ddiffiniad clir o

ysgolion gwledig. Nid oes unrhyw ddiffiniad o ysgol wledig yng Nghymru, a byddaf yn anelu at newid hynny.

20. Mae ysgolion bach a gwledig yn wynebu nifer o heriau ariannol a heriau eraill, gan gynnwys anawsterau wrth recriwtio a chadw penaethiaid, niferoedd gostyngol o ddisgyblion ar y gofrestr gan arwain at bryderon o ran hyfywedd. Gall fod diffyg adnoddau i sicrhau pennaeth i arwain; cyfleoedd prin i gyfnewid syniadau a helpu eich gilydd i ddatblygu arfer addysgu mewn grŵp bach iawn o athrawon; llwythi gwaith gormodol ar athrawon pan nad oes llawer ohonynt, pan fo cyllidebau yn isel; heriau o ran cyflwyno cwricwlwm eang. Un opsiwn posibl fyddai ystyried ffederasiynau.

21. Ar hyn o bryd, gall ysgolion ffederaleiddio drwy ddewis ac mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ffederaleiddio ysgolion. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi lle yr ystyrir cau ysgol bod yn rhaid i hyrwyddwyr ystyried ffederaleiddio fel opsiwn amgen. Mae ffederasiwn yn caniatáu i hyd at chwe ysgol ddod at ei gilydd o dan un corff llywodraethu. Bydd ysgolion sy'n rhan o ffederasiwn yn ysgolion unigol o hyd ac yn parhau i gael eu cyllideb eu hunain ond gallant gyfuno'r cyllidebau hyn er budd pob ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn. Gallant rannu pennaeth ac aelodau o staff yn well rhwng safleoedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar arbenigedd o fewn y cwricwlwm, helpu ei gilydd drwy ddysgu proffesiynol a rhannu arfer a thrwy rannu llwyth gwaith. Yn y pen draw, byddai hyn yn rhoi mwy o amser i athrawon addysgu ac iddynt addysgu yn unol â'u cryfderau ac yn cynnig mwy o gyfleoedd datblygu. Drwy ffederaleiddio, gall ysgolion gwledig barhau'n hyfyw ac aros ar agor yn eu cymunedau eu hunain.

**Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn.**

22. Teimlais ers cryn amser bod angen gweledigaeth strategol newydd ar gyfer addysg, cyflogaeth a sgiliau wrth wraidd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae argymhellion yr Athro Hazelkorn yn cynnig cyfle gwirioneddol i ni ailystyried addysg ôl-orfodol, na chafodd sylw digonol yn y gorffennol. Gydag ansicrwydd y dyfodol, mae angen mwy byth i'n sefydliadau addysgol dynnu eu pwysau wrth greu economi gref yng Nghymru. Rydym wedi bod yn brwydro yn erbyn yr her hon ers blynyddoedd ac ni fydd yn broblem hawdd i'w datrys. Byddaf yn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru unwaith y byddaf wedi cael cyfle i ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn llawn.

**Ystyried cynigion posibl i ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach.**

23. Rwyf yn ymrwymedig i ystyried cynigion posibl i ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gyflwyno opsiynau i mi ar fuddiannau ehangu'r Coleg ac i ystyried sut y byddai unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol yn gweithio ar lefel ymarferol.

**Blaenoriaethu cymorth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan hwyluso arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sector cyhoeddus a'n sector preifat ar y cyd â'n prifysgolion a'n colegau.**

24. Bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cynnig cyfleoedd i integreiddio dulliau dysgu arbrofol a chynyddu lefelau ymgysylltu rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Byddaf yn defnyddio'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesol i gyflwyno rhaglen gyfoethogi drwy'r Gweithgor Cyfoethogi a Phrofiadau a dulliau dysgu drwy'r gwaith a wneir gan y Gweithgor Asesu a Dilyniant. Bydd y rhain yn llywio'r broses o ddatblygu'r meysydd dysgu a phrofiadau.

25. Mae'r prosiect estynedig ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr, 'Dosbarth Busnes', yn darparu model ar gyfer partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion a busnesau ac yn cynnwys cymorth o ran mentrau a chyflogadwyedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu Dosbarth Busnes i ymsefydlu ac ehangu nifer y partneriaethau ledled Cymru yn 2016/17.

26. Rwyf yn ymrwymedig i'r Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP) a fydd yn defnyddio partneriaethau a phrofiad pump grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys academia, busnes corfforaethol ac entrepreneuriaid i ddatblygu strategaeth entrepreneuriaeth wedi'i llywio gan arloesedd yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar yr arfer da o dan Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid 2010-15 sydd wedi annog mwy o bobl i ddod yn entrepreneuriaid. Bydd gwasanaeth Busnes Cymru yn annog cysylltiadau cryf rhwng y rhwydwaith o fodelau rôl busnes a'n hysgolion, colegau a phrifysgolion er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu syniadau busnes a meithrin dealltwriaeth o entrepreneuriaeth.

27. Byddaf hefyd yn ystyried sut y gallwn roi'r strategaeth arloesedd, Arloesedd Cymru, ar waith, er mwyn annog entrepreneuriaeth, arloesedd a chreadigrwydd drwy fuddsoddi mewn dulliau trosglwyddo technoleg o'n prifysgolion a'n colegau er mwyn creu busnesau newydd a wnaed yng Nghymru ('Gwnaed yng Nghymru') â'r gallu i greu swyddi nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Byddaf yn gweithio gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet i greu'r amgylchedd cywir i gynyddu'r cyfleoedd i fasnacheiddio sy'n deillio o wybodaeth academaidd i'r eithaf.

28. Heb ystyried canlyniad Refferendwm yr UE, rwyf eisoes wedi pwysleisio bod gan nifer o'r blaenoriaethau hyn oblygiadau sylweddol o ran y gyllideb a bydd angen adlewyrchu hyn wrth lunio blaengynlluniau cyllidebol y llywodraeth. Caiff rhai o'r gweithgareddau sy'n bodoli eisoes yn y meysydd hyn eu cefnogi gan gronfeydd strwythurol yr UE, sef Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, er mwyn i ni gynnal ac adeiladu ar gyflawniadau presennol a gwella ein trefniadau ar gyfer sicrhau cydweithrediad rhwng academia a diwydiant. Bydd yn rhaid i ni ystyried y sefyllfa yn y dyfodol a'r ffaith na fydd y cronfeydd strwythurol o bosibl ar gael.

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

---

***Cyflwyniad***

1. Diben y papur hwn yw nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer y portffolio Cymunedau a Phlant. Fy mlaenoriaethau yw hyrwyddo llesiant plant: eu datblygiad a'u llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ac annog cynigion ar gyfer adnewyddu ac adfywio economaidd. Caiff gwaith fy adran ei ategu gan ymrwymiad i atal ac ymyrryd yn gynnar yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysigrwydd ystyried safbwynt hirdymor.

2. Fy nod yw sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd a'r cyfle i ffynnu a llwyddo. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, byddaf yn anelu at gyflawni amcanion Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Byddaf hefyd yn canolbwyntio ar ymdrin â Phrofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a'r effaith y gallant ei chael ar fywyd unigolion pan fyddant yn oedolion.

3. Nododd maniffesto'r Blaid Lafur nifer o gamau gweithredu blaenoriaeth perthnasol sy'n rhan o'm portffolio, ac y byddaf yn gweithredu arnynt:

   - Bargen well mewn perthynas â gofal plant
   - Dechrau'n Deg
   - Teuluoedd yn Gyntaf (yn benodol model y Tîm o Amgylch y Teulu)
   - Plant sy'n Derbyn Gofal
   - Lliniaru effeithiau trefniadau diwygio lles
   - Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol
   - Hawliau a chyfranogiad plant

4. Mae gan y blaenoriaethau hyn synergeddau amlwg, a gweithredir yn unol â gweithgareddau portffolio ehangach sy'n cynnwys ein hymrwymiad i gyflenwad tai ac adfywio, cyfiawnder, cymuned y lluoedd arfog a diogelwch cymunedol. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

***Bargen well mewn perthynas â gofal plant***

5. Rwyf wedi bod yn eglur bod angen i ni sicrhau gwell darpariaeth gofal plant er mwyn helpu rhieni sy'n gweithio, a chefnogi busnesau a'r economi. Mae rhieni wedi dweud wrthym bod cost gofal plant ymhlith yr heriau mwyaf y maent yn eu hwynebu. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi a helpu rhieni gyda chostau a hyblygrwydd. Felly, rwyf yn gweithio ar gynlluniau i sicrhau 30 awr yr wythnos, 48 wythnos y flwyddyn. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhieni a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r ddarpariaeth.

6. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn cyflwyno'r buddiannau mwyaf posibl. Felly, byddwn yn asesu sut mae'r ddarpariaeth gofal plant newydd yn cydweddu â rhaglenni sy'n bodoli eisoes, megis Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo'n ddidrafferth rhwng cynlluniau.

7. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod digon o adnoddau o fewn y system, felly byddwn hefyd yn ystyried datblygu'r gweithlu a chymorth busnes i ddarparwyr gofal plant.

***Dechrau'n Deg***

8. Rwyf yn gwbl ymrwymedig i barhau â rhaglen Dechrau'n Deg. Bu'n rhaglen lwyddiannus wedi'i thargedu'n ddaearyddol at blant mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru. Mae'n rhaglen ddwys sy'n gweithio'n agos gyda phlant a theuluoedd er mwyn rhoi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gwasanaethau ymyriad cynnar o ansawdd uchel i fwy na 36,000 o blant, gan wella eu dyfodol cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Gwyddom o werthusiadau fod y rhaglen hon yn effeithiol, a dyna pam fy mod yn ymrwymedig i barhau â'r rhaglen ac i'w datblygu.

***Teuluoedd yn Gyntaf***

9. Gall y dull gweithredu a ddefnyddir gan Teuluoedd yn Gyntaf ac, yn arbennig, y Tîm o Amgylch y Teulu, gael effaith drawsnewidiol ar fywyd teuluoedd. Mae tystiolaeth wedi dangos ei fod yn arwain at deuluoedd cryfach a chadarnach ac y gall wella'r tebygolrwydd y ceir canlyniadau cadarnhaol hirdymor i'r genhedlaeth nesaf a thu hwnt. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid y ffordd y mae pob awdurdod lleol yn rhoi cymorth i deuluoedd yn sylweddol. Bellach, cydnabyddir bod trefniadau gweithio amlasiantaeth yn hanfodol, ac mae'r rhaglen wedi gwella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio er mwyn helpu ein teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae ein dull o asesu a theilwra cymorth i deuluoedd gan ganolbwyntio ar y teulu penodol hwnnw yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddyfodol teuluoedd a chaiff eu cyfleoedd mewn bywyd eu gwella wrth iddynt ddod yn fwy hyderus, cadarn ac annibynnol.

***Plant sy'n Derbyn Gofal***

10. Fy ngweledigaeth yw y dylai pob plentyn mewn gofal gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill. Gwyddom nad yw canlyniadau plant sy'n derbyn gofal yn cymharu'n ffafriol â phlant eraill ac maent yn llai tebygol o ennill cymwysterau addysgol da ac o feddu ar anghenion uwch o ran iechyd a thai. Mae'r bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o ddechrau camddefnyddio sylweddau a dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

11. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi lleihau. Dangosodd data o 2014/15 ostyngiad o 2.2 y cant

yn nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn 2014/15 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rwyf yn awyddus i'r duedd hon ar i lawr barhau. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i mi ac rwyf yn ailgynnull y Grŵp Strategol ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant er mwyn iddo barhau â'i waith a rhoi cyngor ar y ffordd orau o roi dull gweithredu cenedlaethol ar waith mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

12. Bydd rhoi camau ymyrryd cynnar a chamau ataliol ar waith yn un o flaenoriaethau'r Grŵp er mwyn i ni allu lleihau nifer y plant a ddaw'n rhan o'r system ofal, gan gyfrannu, ar yr un pryd, at leihau nifer yr achosion o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod.

13. Bydd rhaglen waith y Grŵp yn seiliedig ar dair thema allweddol:

- Atal plant rhag dod yn rhan o'r system ofal ac ymyrryd yn gynnar
- Gwella'r canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal
- Helpu unigolion sy'n gadael gofal i sicrhau dyfodol llwyddiannus ac i fyw'n annibynnol

***Lliniaru effeithiau trefniadau diwygio lles***

14. Bydd y rhaglen diwygio lles a gaiff ei gweithredu gan Lywodraeth y DU yn cael effaith andwyol ar deuluoedd ledled Cymru. Dengys gwaith ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) y bydd y diwygiadau treth a budd-daliadau a gaiff eu gweithredu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf yn lleihau incwm aelwydydd yng Nghymru tua £600 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd aelwydydd yn colli 1.6 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd neu tua £460 y flwyddyn. Bydd y golled hon yn ychwanegu at y swm sylweddol o incwm a gollwyd eisoes o ganlyniad i doriadau lles cynharach. Dengys gwaith ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd y bydd effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is, yn enwedig y rheini â phlant. Er enghraifft, bydd aelwydydd tlawd o oedran gweithio â phlant yn colli tua 12 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd. Bydd teuluoedd mawr yn colli swm eithriadol (£7,750 y flwyddyn neu 20 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd) yn yr hirdymor o ganlyniad i'r cyfyngiad ar elfennau plant y credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn. Rhaid i ni gydnabod nad yw'r mater hwn yn fater datganoledig. Fodd bynnag, rwyf yn ymrwymedig i ddod o hyd i atebion arloesol o fewn ein rheolaeth a fydd yn helpu i liniaru'r effeithiau andwyol ar y teuluoedd hyn.

15. Cyhoeddwyd ystadegau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) ddydd Mawrth 28 Mehefin. Mae data HBAI yn darparu'r data tlodi diweddaraf i Gymru a'r DU gyfan, ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o 2012/13 hyd at 2014/15 gan nodi bod 23 y cant o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi sy'n wynebu tlodi incwm cymharol. Nid yw hyn wedi newid ers y llynedd. Nododd y data hyn hefyd fod 29 y cant o blant yn byw mewn cartrefi sy'n wynebu tlodi incwm cymharol, sef gostyngiad o 31 y cant y llynedd. Er fy mod yn croesawu'r gostyngiad hwn gan ei fod yn awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir, mae'n golygu bod nifer annerbyniol o blant yn dal i fyw mewn amgylchiadau andwyol.

16. Gwyddom hefyd o brosiect y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y bydd tlodi plant cymharol (cyn costau tai) yn y DU yn cynyddu o 17.1 y cant (neu 2.3 miliwn o blant) yn 2013/14 i 25.7 y cant (neu 3.6 miliwn o blant) yn 2020/21. Gellir priodoli'r cynnydd hwn yn rhannol i'r diwygiadau treth a budd-daliadau. Ni ddarperir rhagamcanion ar lefel Cymru oherwydd meintiau sampl bach. Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i liniaru effeithiau tlodi plant.

***Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol***

17. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosbedigaeth resymol. Rydym wedi nodi'n glir ein bod yn awyddus i wneud hynny ar sail drawsbleidiol. Rydym eisoes yn ymgymryd ag amrywiaeth o fesurau er mwyn helpu i gefnogi rhieni megis yr ymgyrch Rhowch Amser Iddo. Mae'r ymgyrch hon yn dangos bod cynnig anogaeth a chanmol plant am ymddygiad da yn llawer mwy effeithiol na chosbau llym pan fydd plant yn gwneud pethau'n anghywir.

18. Rwyf yn awyddus i rieni fabwysiadu strategaethau magu plant da ac i sicrhau y cânt gymorth i wneud hynny. Mae angen i ni atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol gyda rhieni a phlant fel ei gilydd.

***Hawliau a chyfranogiad plant***

19. Credaf ei bod yn holl bwysig gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc, mae eu cyfranogiad yn hanfodol ac erys ein hymrwymiad i hawliau plant yn sail gadarn i'n dull o weithredu.

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Gorffennaf 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AC, Llywydd
National Assembly for Wales
Elin Jones AM, Presiding Officer

Eitem 4

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Eich cyf:
Ein cyf:

30 Mehefin 2016

Annwyl Lynne

Llongyfarchiadau ar gael eich penodi'n Gadeirydd pwyllgor. Drwy eich ethol i'r rôl hon, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynoch i ymgymryd â chyfrifoldebau sylweddol. Ar ran Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes, rwy'n ysgrifennu atoch i egluro disgwyliadau'r Cynulliad a'r cymorth sydd ar gael i chi ac i aelodau eich pwyllgor.

Mae pwyllgorau'r Cynulliad wrth wraidd y broses ddemocrataidd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau hynny yn chwarae rôl hanfodol yn eu llwyddiant o ran dwyn y Llywodraeth i gyfrif, gwneud cyfreithiau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru. Cefnogaf yn gryf y weledigaeth a nodwyd gan y Comisiwn a Phwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad:

> *Dylai pwyllgorau'r Cynulliad ddangos eu bod yn gwella ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant gan y Llywodraeth i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.*

Yn sail i'r weledigaeth hon y mae 10 o amcanion strategol, sydd wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Yn yr Atodiad hwnnw, rwyf hefyd wedi cynnwys rhestr o brif gyfrifoldebau Cadeirydd pwyllgor. Mae'r rhain wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Busnes. Maent hefyd yn sail i asesiad y Bwrdd Taliadau annibynnol o'r tâl ychwanegol y byddwch yn ei gael mewn perthynas â'r rôl. Felly, maent yn crynhoi'r disgwyliadau sydd ynghlwm wrth eich rôl newydd. Rwy'n deall y bydd aelodau'r Bwrdd Taliadau yn ystyried cyflogau'r cadeiryddion yn y Pumed Cynulliad yn eu cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Mae clerc pwyllgor wedi'i ddyrannu i chi, a fydd yn eich helpu i sefydlu'r pwyllgor cyn toriad yr haf, sef: Marc Wyn Jones. Mae Marc yn rheoli tîm bach a fydd yn darparu cefnogaeth a chyngor strategol, trefniadol a gweinyddol i chi a'ch pwyllgor. Mae Marc hefyd yn arwain tîm integredig o arbenigwyr o wasanaethau eraill (ymchwil, cyfathrebu, materion cyfreithiol, a chyfieithu), ac yn cydweithio â staff o bob rhan o'r Comisiwn i ddarparu'r gwasanaethau y bydd ar eich pwyllgor eu hangen. Marc yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnes y pwyllgor, ond byddwn yn eich annog i ddod i adnabod holl aelodau eraill y tîm ac i gydweithio'n uniongyrchol â hwy.  Er y bydd Marc fel arfer yn treulio cyfran fawr o'i amser ef yn gweithio gyda chi, bydd ei rôl hefyd yn cynnwys cefnogi Aelodau eraill y pwyllgor, a rhoi cymorth mewn perthynas â'r broses o graffu ar Filiau hyd yn oed ar ôl i drafodaethau eich Pwyllgor yn eu cylch ddod i ben]. Gan fod nifer y pwyllgorau wedi cynyddu ers y Pedwerydd Cynulliad, mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu'r strwythurau staffio terfynol. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi ynghylch y mater hwn cyn dechrau tymor yr Hydref.

Bydd eich clerc a'ch tîm integredig yn eich cynorthwyo i gynnull eich pwyllgor ac i lunio rhaglen gychwynnol o waith. Rwyf yn argymell eich bod yn neilltuo amser yn gynnar yn eich cyfnod fel Cadeirydd i drafod materion cynllunio strategol, yn ogystal â'ch hoff ffyrdd o weithio, gyda holl Aelodau eich pwyllgor. Mae'r profiadau a gafwyd yn y Cynulliad blaenorol yn awgrymu y bydd trefnu amser penodol i wneud y gwaith hwn, ar wahân i fusnes arferol y Cynulliad, yn fuddiol. I helpu gyda'r broses hon, mae rhaglen gynhwysfawr ar gael i chi, fel Cadeirydd, ac i Aelodau eraill eich pwyllgor, mewn perthynas â'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

Rwyf yn bwriadu trefnu cyfarfod o Fforwm y Cadeiryddion cyn gynted ag y bo modd. Bydd cyfarfod o'r fath yn rhoi cyfle i chi drafod gyda'ch cymheiriaid sut i

wneud y defnydd gorau o'r broses graffu yn y system bwyllgorau, ac i gael cytundeb trawsbleidiol ar y materion hyn.  Rwyf yn gobeithio y bydd y Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd a byddwn yn eich annog i gymryd rhan weithredol er mwyn gyrru'r agenda strategol ar gyfer pwyllgorau yn ystod y Pumed Cynulliad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at arweinydd a rheolwr busnes eich plaid.  Byddaf hefyd yn trefnu bod copi yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bod eich rôl a'i pharamedrau yn eglur i bawb sydd â diddordeb yn eich pwyllgor, gan gynnwys eich cydweithwyr a phobl Cymru.

Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich rôl fel Cadeirydd, ac rwyf yn eich annog i gysylltu â mi unrhyw bryd yr hoffech drafod unrhyw agwedd ar waith eich pwyllgor. Yn ogystal, gallaf roi sicrwydd i chi y bydd holl staff y Comisiwn, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn barod i helpu eich pwyllgor gyflawni ei amcanion.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Atodiad**

**1. Amcanion strategol ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad**

Dyma fydd amcanion y pwyllgorau:

a. Byddant yn cytuno ar gynllun clir a strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau.

b. Byddant yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt.

c. Byddant yn dilyn arweiniad y cadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodwyd arnynt gan y Cynulliad.

d. Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu gwaith dadansoddi a gwerth eu gwelliannau deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi lunio ei chynlluniau o ran polisi, gwariant a deddfwriaeth.

e. Byddant yn craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolios yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau.

f. Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltu adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw statws hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol.

g. Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion, a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt.

h. Byddant yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, yn cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel cyfranogwyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac yn ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da'r Cynulliad ymhlith y cyhoedd. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang â phosibl.

i. Byddant yn sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad.

j. Byddant yn gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad.

**2. Prif gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau:**

Prif gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau yw:

- pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;

- sicrhau bod y pwyllgor mor berthnasol a dylanwadol ag y bo modd, gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;

- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;

- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;

- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws trawsbleidiol pryd bynnag y bo modd;

- datblygu'r diwylliant a'r amrywiaeth sgiliau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;

- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;

- sbarduno pob agwedd ar waith y pwyllgor, gan sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyflym ac i safon uchel;

- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a

- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a’i werthuso'n feirniadol, sbarduno arloesi o ran y modd y mae'n gweithredu er mwyn cynyddu ei effaith, a sicrhau ei fod yn fwy effeithiol ac yn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon